7fed o Ragfyr 2016

Sut ydw i fod i esbonio hyn i fachgen pum mlwydd oed? Sut ydw i fod i esbonio blerwch y sefyllfa? A thrwy'r cyfan mae'n rhaid i mi edrych yn ddewr o'i flaen ond y gwir yw, y cwbl dwi eisiau wneud ydy sgrechian a chrio. Roedd dad yn ddyn mor ofalus, doedd o ddim yn haeddu dim o hyn. Sut gall rywun fod mor hunanol? A mam? Does wybod sut mae mam yn ymdopi â'r sefyllfa. Prin y mae hi wedi bod adre dros y 24 awr diwethaf rhwng bod yn yr orsaf heddlu ac ymweld â dad yn yr ysbyty. Mae fy myd wedi chwalu. Rydw i a dad mor agos, mwy fel ffrindiau gorau na thad a merch. Mae'n rhaid i mi gadw'n brysur neu mae'r holl atgofion melys yn crwydro'n ôl i'm meddwl. Dim ond echddoe oedd hi pan aethom ni lawr i'r ffair Nadolig i brynu anrheg i mam. Roedd dad wedi prynu modrwy aur gyda charreg ddiamwnt arni a does wybod erbyn rwan os gaiff dad y cyfle i gyflwyno'r fodrwy iddi. Mae o mewn cyflwr gwael gwael meddai taid. Dydy taid erioed wedi bod yn un am guddio'r gwir, ddim hyd yn oed i gysuro meddwl. Mae'n debyg fod taid wedi gweld y ddamwain gan mae dim ond lawr y ffordd o'i dŷ y ddigwyddodd o. Roedd car â gyrrwr meddw tu ôl yr olwyn wedi dod i gyfeiriad dad ar ochr anghywir y ffordd. Mentrodd dad osgoi'r car ond bu fethu. Roedd y ddau gar wedi chwalu a'r ddau ar eu toeau. Dywedodd yr heddlu bod dad yn lwcus ei fod dal yn fyw gan ei fod wedi dioddef anafiadau difrifol i'w gefn a'i ben. Mae'r 48 awr nesaf yn mynd i fod yn hanfodol. Cawn weld pa lwc y daw yfory i dad.

8fed o Ragfyr 2016

Noson arall o grio a prin dim cwsg. Dwi'n teimlo'n eithaf euog am beidio dweud wrth Tomos beth sy'n mynd mlaen ond mae'n well iddo aros yn aneglur am y peth. Dydy mam dal heb fod adre. Mae hi'n benderfynol o aros wrth ochr dad tan mae o'n deffro. Mae taid wedi dod i aros draw tan bydd cyflwr dad yn gwella a bydd mam yn dod adre. Dwi'n methu dad gymaint yn barod a dwi'n gwybod y caf i byth yr hen dad yn ôl. Mae'r doctoriaid wedi cadarnhau ei fod o wedi'u barlysu o'r gwddf i lawr a bydd ei lafaredd yn gyfyngedig. Pwy fysai wedi meddwl? Ein tad egniol, sionc a chwaraeus ni yn gorfod dioddef gweddill ei fywyd mewn cadair olwyn ac yn gorfod bod mor ddibynol ar aelod arall o'r teulu. Mae hyn wedi profi creulondeb bywyd i mi. Dwi'n gweld hi'n anodd coelio'r peth a bod yn onest, yn enwedig gan nad ydw i wedi bod yn ymweld dad yn yr ysbyty ond dwi'n dechrau dod i ddeall na fydd ein bywydau ni fyth run peth.

10fed o Ragfyr 2016

Prin y bum i ar ddeffro ddoe. Mae'r nosweithiau di gwsg wedi fy ngwanhau. Rydw i a Tomos yn cael mynd i'r ysbyty fory i weld dad gan fod y cleisiau a'r briwiau ar ei wyneb wedi lleihau. Doedd mam ddim yn hoff o'r syniad o fi a Tomos yn gweld dad mewn ffasiwn stad, bysai'n ddigon i godi ofn arnom. Does wybod sut mae mam am esbonio'r sefyllfa i Tomos a sut mae o am ymateb ond er hyn, mae'n rhy ifanc i ddeall siwr o fod. Cefais hunllef ddoe am y ddamwain yn digwydd. Roedd o mor realstig a chlywais sŵn dad yn gweiddi fel roedd y car arall yn agosau ato. Dwi dal methu credu pa mor hunanol gall unigolyn fod. Mae'r gyrrwr meddw wedi dianc o'r ddamwain gyda'i fraich wedi torri ac ychydig friwau ar ei foch yn unig. Sut gall hynny fod a dad yn dioddef yn dawel mewn gwely ysbyty?

11eg o Ragfyr 2016

Roedd gweld dad heddiw'n anodd. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud wrtho, ddim yn gwybod os byddai o'n gallu fy nghlywed. Roedd o'n gorwedd ar y gwely yn llonydd ac yn ddiniwed a'i wyneb yn ddi-emosiwn. Doedd Tomos dal ddim yn deall, roedd yn rhy brysur yn astudio'r anifeiliaid ar y posteri o gwmpas yr ysbyty. Pwy a wyr beth sy'n mynd mlaen yn ei feddwl bach o? Roeddwn i wedi synnu pa mor dawel oedd mam. Roeddwn i'n disgwyl iddi fod dipyn mwy siaradus gan nad ydyn ni wedi gweld ein gilydd am rhai dyddiau. Roedd hi'n edrych mor welw a digalon. Yn amlwg dyw hi ddim yn ymdopi mor dda ag yr oedd pawb yn meddwl. Dwi erioed wedi gweld mam yn edrych mor ddi-ysbryd o'r blaen. Bron ei bod hi'n edrych mor wael a dad. Bu doctoriaid yn dod i gadw golwg ar dad bob chwarter awr gan ysgrifennu nodiadau manwl ar eu clipfyrddau. Doedd dim gwybodaeth yn cael ei rannu o 'mlaen i a Tomos. Dwi'n gwybod fy mod i'n hunanol ond dwi methu stopio teimlo mor ddibwys. Dydy mam ddim wedi bod yn talu dim sylw i fi na Tomos. Ond, mae'n rhaid meddwl am dad. Ei iechyd o yw'r peth pwysicaf ar y foment.

25ain o Ragfyr 2016

Mae'n teimlo mor od a diflas peidio cael dad adre ar ddiwrnod Nadolig. Daeth mam adre am y tro cyntaf ddoe ac mae'n treulio'r bore yma gyda ni heddiw. Rydym ni gyd yn mynd i weld dad prynhawn yma ac yn mynd â charden ac anrheg iddo'n barod at pan fydd o'n barod i agor ei lygaid. Mae o'n gallu symud ei fysedd ychydig erbyn hyn ac yn gwenu weithiau pan mae'n clywed llais cyfarwydd. Mae'n gymaint o gysur i mi gael gweld o'n ymateb ryw ychydig a gweld lliw yn treuddio'n ôl mewn i'w fochau. Tybed ydy o'n cofio beth sydd wedi digwydd ac yn gwybod ei fod yn yr ysbyty? Rydyn ni wedi cael gwybod fod y gyrrwr meddw yn y carchar erbyn hyn ac mae'r heddlu wedi datgan fod dad yn hynod o lwcus ei fod dal yn fyw.

2il o Chwefror 2017

Daeth dad adre am ychydig oriau bore ma o dan ofal y nyrsys. Roedd hi'n neis i dad fod mewn awyrgylch gwahanol heddiw yn lle cael gweld yr un pedair wal bob dydd. Mae'n siwr ei bod hi'n ddiflas gorwedd mewn gwely ysbyty am ddau fis heb allu symud prin dim. Rydyn ni gyd wedi bod yn ceisio ei ddiddori wrth chwarae cerddoriaeth a darllen straeon iddo. Mae mam yn benderfynol o geisio cael dad i ddysgu ychydig o eiriau syml ac mae'n ymarfer ei lafaredd drwy ddefnyddio gemau dysgu plant bach. Mae'n gwella mewn camau bychain bob dydd sy'n wyrth. Mae golwg benderfynol yn ei lygaid a gallaf weld nad ydyw'n hoffi'r syniad o orfod dibynnu ar rywun i wthio fo yn ei gadair o un lle i'r llall. Mae o wedi newid o fod yn ddyn mor annibynnol, sionc a phrysur i ddyn digalon a chyfyngiedig. Mae'n bechod ei weld fel hyn.

4ydd o Ebrill 2017

Penblwydd hapus dad! Does dim diwrnod yn mynd heibio lle nad ydw i'n ddiolchgar o gael o yma gyda ni. Bysai pethau wedi gallu bod mor wahanol. Mae mam wedi trefnu i ni fynd i'r sinema. Mae dad wastad wedi bod yn hoff o ffilmiau anturus. Dyma fydd ein diwrnod cyntaf allan fel teulu a dwi'n edrych ymlaen yn fawr. Rydym ni gyd yn gwerthfawrogi pob munud yng nghwmni ein gilydd. Rydw i wedi datblygu perthynas hyd yn oed fwy agos efo dad dros yr wythnosau diwethaf gan fy mod yn mynd a fo am dro i lawr y ffordd bob prynhawn i gael awyr iach ac i geisio symud meddwl. Dydy o ddim yn hoff iawn o aros yn y tŷ ddim byd ac mae'n ddigon hawdd gweld pan mae dad wedi diflasu oherwydd mae'n dechrau gwylltio a nodio ei ben mewn cynnwrf i fynd am dro.

30ain o Dachwedd 2017

Wedi misoedd o baratoi ac ymarfer, mae'r diwrnod mawr wedi dod i ben. Roeddwn yn teimlo fel bod rhaid gwneud rhywbeth i ddiolch i hoff staff yr ysbyty am eu help ac i godi ymwybyddiaeth o beryglon gyrru yn feddw felly penderfynais redeg hanner marathon Caerdydd. Mae hi wedi bod bron i flwyddyn ers y ddamwain ac am flwyddyn anodd mae hi wedi bod. Mae dad wedi bod adre ers ychydig wythnosau erbyn hyn ac mae llawer o waith wedi cael ei wneud i'r tŷ fel bod dad yn gallu cael ei wthio o gwmpas yn hwylus yn ei gadair olwyn. Rydw i wedi gweld hi'n ymdopi efo'r holl waith ysgol, yn enwedig gan fy mod yng nghanol fy arholiadau TGAU. Mae fy ffrindiau ac athrawon wedi bod yn gefnogol iawn ac wedi gwneud cyngerdd nol ym mis Mai i godi arian i'r ysbyty. Ac ar ben hynny i gyd, rydw i wedi bod yn rhedeg yn ddyddiol ers pedwar mis i ymarfer at yr hanner marathon. Yn wir, mae'r holl waith caled wedi talu. Casglais £781.23 heddiw ac mae'r elw i gyd yn mynd at yr ysbyty a'r ambiwlans awyr i helpu trin cleifion. Rhwng helpu dad adfer i'r cylfwr y mae o wedi cyrraedd hyd yn hyn, i helpu'r teulu cyfan ymdopi efo'r sioc, roedd codi arian i helpu trin teuluoedd eraill yn yr un sefyllfa yn arwydd o'n diolch fel teulu.

6ed o Ragfyr 2017

Mae blwyddyn cyfan wedi mynd heibio ers i dad ddioddef yn y ddamwain. Y gwir yw, mae'r ddamwain hwnnw wedi newid bywyd dad am byth ac wedi cael effaith ddifrifol ar ein teulu. Nes i erioed feddwl y byswn i'n gorfod gwthio dad o gwmpas y tŷ mewn cadair olwyn a'i fwydo â llwy yn 46 oed. Yn sicr, mae hyn wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor fyr a chreulon gall bywyd fod. Rydyn ni gyd yn gwneud y mwyaf o bob munud yng nghwmni ein gilydd ac yn ddiolchgar dros ben am gefnogaeth parhaol holl staff yr ysbyty, yr ambiwlans, ffrindiau a theulu.

4ydd o Ionawr 2018

Daeth poen dad i ben. Rydyn ni gyd ar goll. Roedd yr anafiadau wedi profi'n ormod i gorff dad. Credai'r doctoriaid fod gormod o bwysau ar ei organau a'i fod wedi dioddef trawiad ar y galon. Roedd ei gorff yn rhy wan i ymosod. Mae o wedi bod mor ddewr dros y flwyddyn diwethaf, o leiaf gall ei gorff a'i feddwl orffwyso rwan. Dydy mam heb stopio edrych drwy hen luniau ac mae'n poeni

am holl ffwdan trefnu'r angladd. Cyngor taid yw i gefnogi'n gilydd ac i fod yn onest, dwi'n meddwl mai dyna'r unig beth allwn ni gyd wneud dros y cyfnod anodd yma.